



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dr Frank Atherton
Y Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru
Chief Medical Officer/Medical Director NHS Wales

Meddygon Teulu
Rheolwyr Practis
cc. GPC(Cymru)

7 Medi 2018

Annwyl Gyfeillion

Brechlyn MenACWY i fyfyrwyr newydd mewn prifysgolion

Rwy'n ysgrifennu atoch i ofyn am eich cefnogaeth i'r rhaglen frechu i fyfyrwyr blwyddyn gyntaf, hyd at 25 oed, rhag clefyd meningococol ymledol, clefyd sy'n brin iawn ond sy'n gallu rhoi bywyd yn y fantol.

Dylai'r myfyrwyr newydd hyn mewn prifysgolion gael y brechlyn meningococol ACWY (MenACWY) cyfun cyn i'r tymor academaidd newydd ddechrau, neu cyn gynted â phosibl yn ystod tymor academaidd newydd 2018.

Rwy'n gwybod mai ryw 40% o'r grŵp oedran sydd fwyaf tebygol o fynd i'r brifysgol yn 2018 sydd wedi cael eu brechu. Mae hynny'n golygu bod chwech o bob deg o fyfyrwr heb eu diogelu rhag y clefyd.

Yr opsiwn gorau yw cynnig y brechlyn i fyfyrwyr newydd yw cyn iddynt ddechrau yn y brifysgol. Fodd bynnag, dros yr wythnosau nesaf bydd myfyrwyr yn cofrestru gyda phractisau mewn prifysgolion wrth iddynt ddechrau ar eu cyrsiau academaidd. Cofiwch wneud yn siŵr eu bod wedi cael y brechlyn MenACWY.

Cyflwynwyd y brechlyn MenACWY yng Nghymru ym mis Awst 2015 mewn ymateb i'r cynnydd yn nifer yr achosion o ffurf ymosodol o'r clefyd meningococol grŵp W (MenW), sy'n achosi llid yr ymennydd a septisemia. Mae myfyrwyr newydd mewn prifysgolion mewn perygl penodol o gael y clefyd oherwydd y byddant yn dod i gysylltiad â chymaint o bobl newydd, a bydd rhai ohonynt yn cario'r bacteria meningococol yn ddjarwybod iddynt.

Diolch yn fawr ichi am eich cymorth.

DR FRANK ATHERTON
Y Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru

